OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2496

## Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliad Ewropeaidd" ("*the European Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli salmonela ac asiantau milheintiol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd (**1**);

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**2**);

ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau sydd wedi'u cymryd o dan bwynt 2.1.2.2 o'r Atodlen i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o Gallus gallus ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**3**).

(**1**) OJ Rhif L325, 12.12.2003, p.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 dyddiedig 20 Tachwedd 2006.
(**2**) O.S. 2006/1293 (Cy.127).
(**3**) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12.